

## Tasg 2

# Lluniau eraill

## 1. Gwaith i grwpiau o 3

Partner 1: Dewiswch un o'r lluniau yn yr adran **Lluniau'r Nadolig (1)**.

Partner 2: Dewiswch un o'r lluniau yn yr adran **Lluniau'r Nadolig (2)**.

Partner 3: Dewiswch un o'r lluniau yn yr adran **Lluniau'r Nadolig (3)**.

**Peidiwch â dangos y lluniau i'ch gilydd.**

Llenwch y grid isod am y llun rydych chi wedi ei ddewis.

	<b>Llun y Nadolig (1)</b>	<b>Llun y Nadolig (2)</b>	<b>Llun y Nadolig (3)</b>
Pwy sydd yn y llun?			
Ble maen nhw?			
Beth maen nhw'n ei wneud?			
Sut maen nhw'n teimlo, tybed? Pam?			
Beth arall sydd yn y llun?			

2. Trafodwch y cwestiynau hyn:

Pa fath o Nadolig sydd yn y llun? (Meddyliwch yn arbennig am sut mae'r bobl yn teimlo.)

Pa lun yw'r un mwyaf pwerus yn eich barn chi? Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Fyddai'r lluniau yma'n addas ar gyfer cerdyn Nadolig yn eich barn chi?

Rhowch ddigon o resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

4. Pa fath o luniau sy'n addas ar gyfer cardiau Nadolig? Trafodwch hyn ac yna ewch ymlaen i Dasg 3.